# DIWEDDARIAD GAEAF 2025

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



GOV.WALES

**Cronfa Addington**
01926 620 135

**Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion**
03000 200 301

**Arolwg moch daear marw**
0808 169 5110

**Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)**
0345 050 3456

**Llinell Gymorth Rheoli Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS**
01974 847 000

**Sefydliad DPJ**
0800 587 4262

**EID Cymru**
01970 636 959

**Cyswllt Ffermio**
03456 000 813

**Y Rhwydwaith Cymunedau Fferm**
03000 111 999

**Lantra Cymru**
01982 552 646

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**
0300 065 3000

**Ardystiad Bwyd Cymreig o Ansawdd**
01970 636 688

**Sefydliad Fuddianol Amaethyddol Frenhinol**
0800 188 4444

**Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW**
0300 062 5004

**Samaritans yng Nghymru**
116 123

**Llinell Gymorth TB**
0300 303 8268

**Tir Dewi**
0800 121 4722

# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 29 MEDI 2025 – 05 RHAG 2025 | Arallgyfeirio Amaethyddol a Garddwriaeth |
| 27 HYD 2025 – 20 CHW 2026 | Cynllun Adfer Coetir |
| 03 TACH 2025 – 12 RHAG 2025 | Grantiau Bach – Amgylchedd (carbon) |
| 03 TACH 2025 – 16 ION 2026 | Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth |
| 01 ION 2026 | Cynllun Ffermio Cynaliadwy |
| 01 ION 2026 – 31 RHAG 2026 | Cynllun Cynllunio Creu Coetir |
| 01 ION 2026 – 31 RHAG 2026 | Cynllun Adfer Coetiroedd |
| 05 ION 2026 – 20 CHWE 2026 | Grantiau Bach – Amgylchedd (tirwedd a phryfed peillio) |
| 12 ION 2026 – 27 CHWE 2026 | Grantiau Bach – Effeithlonrwydd |
| 02 MAW 2026 – 22 MAI 2026 | Grantiau Bach – Creu Coetir |
| 02 MAW 2026 – 20 TACH 2026 | Grant Creu Coetir |

I weld dyddiadau ymgeisio'r holl gynlluniau cymorth amaethyddol, ewch i: **llyw.cymru/cynlluniau-gwledig-dyddiadau-ymgeisio**

I weld canllawiau'r holl Gynlluniau Cymorth Amaethyddol, ewch i **llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig** ychydig cyn i'r cyfnod ymgeisio agor ar gyfer y rownd nesaf.

Roedd y wybodaeth yn y Diweddariad Gaeaf yn gywir o'i ddyddiad cyhoeddi (17 Tachwedd 2025) Am y dyddiadau, y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i wefan Llywodraeth Cymru: LLYW.CYMRU.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, WG53202
ISBN digidol: 978-1-80633-686-9
ISBN argraffu: 978-1-80633-687-6

# CYNNWYS




04
CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

05
TALIADAU GWLEDIG CYMRU

08
EID GWARTHEG YNG NGHYMRU: BETH SY'N NEWID, A PHRYD

09
CEIDWAID DEFAID A GEIFR: STOCRESTR FLYNYDDOL

11
CREU COETIR

12
IECHYD A LLES ANIFEILIAID

17
DEWCH I'N GWELD YN Y FFAIR AEAF AR FAES SIOE FRENHINOL CYMRU

18
PARATOI AM LIFOGYDD A THYWYDD EITHAFOL

19
PARTNERIAETH DIOGELWCH FFERM CYMRU

20
GWASANAETH CYSYLLTWYR FFERM

21
CYMORTH AMAETHYDDOL

24
BLE ALLAF I GAEL CYMORTH

# CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

**Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dechrau ar 1 Ionawr 2026.** Mae'r Cyflwyniad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (**www.llyw.cymru/cyflwyniad-ir-cynllun-ffermio-cynaliadwy**) yn rhoi crynodeb defnyddiol o'r 12 Gweithred Gyffredinol rydym yn gofyn ichi eu gwneud fel rhan o'r Cynllun newydd. Os hoffech ragor o fanylion, darllenwch y (**www.gov.wales/sustainable-farming-scheme-2026-scheme-description**).

Mae yna nifer o gamau y gallwch eu cymryd nawr i baratoi ar gyfer newid i'r Cynllun newydd, gan gynnwys cychwyn rhag blaen ar rai o'r Gweithredoedd Cyffredinol (UAs):

- Ewch i'n Canllaw Cyflym (**www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-canllaw-cyflym**) i gael syniad o faint eich taliadau SFS ar gyfer 2026.
- UA1 Iechyd pridd – Bydd profion pridd a gynhelir hyd at bedair blynedd cyn i chi ymuno â'r Cynllun yn cyfrif tuag at yr UA hon.
- UA4 Datblygiad Proffesiynol Parhaus – bydd modiwlau e-ddysgu'r SFS, ar gael trwy Cyswllt Ffermio a gafodd eu cwblhau yn 2025 yn cyfrif tuag at yr UA hon ar gyfer 2026.
- UA10 Cynllun Cyfle Plannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd – ystyriwch ble y byddai'n fuddiol i'ch fferm i blannu coed a pherthi ychwanegol ac ystyriwch eu plannu nawr trwy gynlluniau creu coetir a pherthi sy'n bod eisoes.
- Edrychwch ar y templedi sydd ar gael i'ch helpu i gynnal rhai UAs fel UA2 Rheolaeth Integredig ar Blâu ac UA12 Iechyd a Lles Anifeiliaid.

Os ydych chi'n ymweld â Ffair Aeaf Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru 2025, dewch i siarad â staff Llywodraeth Cymru a Cyswllt Ffermio ym Mhafiliwn Llywodraeth Cymru (gyferbyn ag adeilad yr NFU) i ddysgu mwy am y Cynllun a'r cymorth sydd ar gael.



# TALIADAU GWLEDIG CYMRU



## Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Cwestiynau Cyffredin

Mae dogfen Cwestiynau Cyffredin wedi'i datblygu i gyd-fynd â Chynllun Ffermio Cynaliadwy 2026: disgrifiad o'r cynllun. Mae'r Cwestiynau Cyffredin hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd Canllawiau a Nodiadau Technegol Llawn y Cynllun ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cyn i'r cynllun ddechrau ar 1 Ionawr 2026.

**llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-canllaw**

## Eich Map Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ar gael ar RPW Ar-lein

I'ch helpu i nodi gofynion y cynllun Cyffredinol sy'n berthnasol i'ch fferm, bydd mapiau SFS ar gael ar RPW ar-lein erbyn 1 Ionawr 2026. Bydd y map hwn yn manylu ar ddosbarthiad cynefinoedd eang, gorchudd coetir a chanopi coed, safleoedd dynodedig a nodweddion hanesyddol.

Os ydych wedi cwblhau'r ymarfer cadarnhau data, bydd y mapiau SFS yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r unrhyw newidiadau y gallech fod wedi'u nodi eisoes.

Bydd yr wybodaeth fapio hefyd yn cael ei chyflwyno o fewn y Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026, sydd ar gael ym mis Mawrth, lle cewch y cyfle olaf i adolygu a chadarnhau'r wybodaeth fel rhan o'r cais SFS.

**llyw.cymru/mewngofnodi-ar-taliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein**

### Mapiau Cynllun Amaethyddiaeth Cynaliadwy

I baratoi mapiau'r Cynllun Amaethu Cynaliadwy, ni fydd Rheoli fy Nhir a'r gael rhwng 8 Tachwedd 2025 a 12 Ionawr 2026, gellir cwblhau unrhyw newidiadau i dir, pryniadau neu werthiannau o 13 Ionawr 2026.

## Taliadau BPS 2025

Mae taliadau ymlaen llaw gwerth hyd at 70% o werth hawliad terfynol BPS 2025 disgwyliedig wedi'u talu ers 14 Hydref. Efallai y bydd rhesymau pam na fydd taliad cyntaf BPS wedi'i wneud, er enghraifft, oherwydd anghydfod tir parhaus, torri amodau a nodwyd wrth arolygu neu faterion profiant heb eu bodoli.

Yn amodol ar gwblhau'r dilysiad llawn, bydd taliadau olaf BPS 2025, neu daliadau llawn i'r rhai nad ydynt wedi derbyn taliad cyntaf, yn dechrau o 12 Rhagfyr 2025.

## Cyfnod Pontio'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS)

Bydd y Cyfnod Pontio BPS yn dechrau ar 1 Ionawr 2026, gyda chyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS).

Yn 2026, bydd gan ffermwyr yr opsiwn i hawlio am BPS neu SFS ar y Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026, a fydd ar gael ym mis Mawrth 2026. Unwaith y bydd busnes fferm yn hawlio SFS, ni allant hawlio BPS eto.

O 2026 ymlaen, bydd y BPS yn gynllun etifeddiaeth. Ni fydd unrhyw newidiadau i feini prawf cymhwysedd a rheolau'r cynllun yn ystod y cyfnod pontio hwn, fodd bynnag, bydd taliadau BPS yn gostwng dros y 3 blynedd nesaf, yn seiliedig ar werthoedd hawliau BPS 2025, fel a ganlyn:

- 60% yn 2026
- 40% yn 2027
- 20% yn 2028.



Ni fydd BPS ar gael yn 2029.

2025 fydd y flwyddyn olaf ar gyfer y Gronfa Genedlaethol a rheol math o ddefnydd 2 flynedd.

Ni fydd Taliadau Ffermwyr Ifanc ar gael i newydd-ddyfodiaid yn 2026.

**llyw.cymru/cynllun-y-taliad-sylfaenol-canllawiau-ar-drosglwyddo-hawliau**

## Trosglwyddo a Phrydlesu Hawliau Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) 2026

O 2026 ymlaen, bydd trosglwyddo hawliau BPS yn cael ei gyfyngu i'r rhai sy'n trosglwyddo a/neu'n prydlesu hawliau gyda thir. Mewn achosion o etifeddu ac olyniaeth mae hynny'n golygu y gall hawliau BPS ond gael eu trosglwyddo ichi gyda thir.

Bydd Cyfnod Trosglwyddo a Phrydlesu 2026, a'r rheolau trosglwyddo hawliau ar gael yn gynnar yn 2026, gyda chanllawiau ategol.

**llyw.cymru/cynllun-y-taliad-sylfaenol-canllawiau-ar-drosglwyddo-hawliau**

## Proses Apelio Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig – Ffi Apelio

O 1 Ionawr 2026 bydd y ffi a godir i gyflwyno apêl Cam 2 yn talu costau'r Panel Apelio Annibynnol.

Bydd y ffioedd apelio diwygiedig yn berthnasol i bob apêl Cam 2 a gyflwynir o'r dyddiad hwn, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â iawndal TB.

Bydd y canllawiau apelio diwygiedig yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn.

**llyw.cymru/apeliadau-grantiau-thaliadau-gwledig-canllaw**

## RPW Ar-Lein: symud o Borth y Llywodraeth i One Login GOV.UK

Mae cyflwyno a gweinyddu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026 yn dibynnu ar GOV.UK One Login.

Mae RPW Ar-lein yn disodli gwasanaeth Porth y Llywodraeth gyda One Login GOV.UK.

Mae holl gwsmeriaid RPW Ar-lein wedi eu gwahodd bellach i symud o Borth y Llywodraeth i One Login. Mae cymorth ar gael gan ein Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid, y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm a Cyswllt Ffermio i'ch cynorthwyo gyda'r broses symud. Rydym am annog ein holl gwsmeriaid i ddefnyddio One Login GOV.UK cyn diwedd y flwyddyn, gan mai ein bwriad yw dad-gomisiynu gwasanaeth Porth y Llywodraeth ar ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Mae Canllawiau llawn ar sut i symud ar gael ar-lein a bydd y ddolen i'r canllawiau wedi'i chynnwys yn y gwahoddiad.

**llyw.cymru/rpw-ar-lein-symud-o-borth-y-llwyodraeth-i-one-login-govukwahoddiad**



# EID GWARTHEG YNG NGHYMRU: BETH SY'N NEWID, A PHRYD

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar Adnabod Gwartheg yn Electronig (EID Gwartheg) a gynhaliwyd yn gynharach eleni, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno system dagio electronig ar gyfer lloi newydd-anedig yng Nghymru, gan ddefnyddio tagiau clust Amledd Isel (LF).

## Beth sydd wedi'i gytuno?

O dan y system newydd, bydd angen tag clust LF EID ar bob llo a anwyd ar ôl y dyddiad cychwyn (*i'w benderfynu*). Bydd y tagiau hyn yn parhau i ddangos rhif yr anifail a byddant hefyd yn cynnwys microsglodyn gyda rhif adnabod swyddogol yr anifail, y gellir ei ddarllen yn electronig neu'n weledol fel sy'n arfer nawr.

Yn bwysig, ni fydd angen ailddagio gwartheg presennol, felly gall buchesi presennol gadw eu tagiau presennol ac nid oes unrhyw gynlluniau i gael gwared ar basbortau papur gwartheg fel rhan o weithredu tagiau EID Gwartheg.

## Pryd y bydd yn digwydd?

Mae'n annhebygol y bydd y drefn EID Gwartheg yn cael ei gweithredu yng Nghymru tan 2027 ar y cynharaf. Mae hyn yn rhoi amser i:

- Ddiweddaru'r ddeddfwriaeth.
- Paratoi systemau'r llywodraeth.
- farmers, markets, and abattoirs to get ready.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r drefn ar gyfer lloi newydd-anedig yn raddol, er mwyn sicrhau bod y trawsnewidiad yn llyfn ac yn ymarferol i bawb sy'n rhan ohono.

## Y Camau Nesaf

Rydym yn gweithio'n agos gyda Lloegr i gysoni ein cynlluniau gweithredu. Bydd manylion am pryd y gall ceidwaid ddechrau defnyddio'r tagiau clust EID Gwartheg swyddogol a sut olwg fydd ar y tagiau swyddogol yn cael eu rhannu unwaith y cytunir ar gynlluniau.



# CEIDWAID DEFAID A GEIFR: STOCRESTR FLYNYDDOL 1 RHAGFYR 2025

Mae hi bron yn amser y Stocrestr Flynyddol o Ddefaid a Geifr:

### 1 Rhagfyr 2025

1 Rhagfyr 2025 fydd dyddiad y Stocrestr Flynyddol nesaf o Ddefaid a Geifr. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r stocrestr yw 31 Rhagfyr 2025.

Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i bob deiliad defaid a geifr yng Nghymru gwblhau'r Rhestr Flynyddol ar 1 Rhagfyr bob blwyddyn.

## Sut i lenwi'r stocrestr

- Ceidwaid sydd â chyfrif EIDCymru cofrestredig – bydd y stocrestr ar gael ar eich cyfrif yn **www.eidcymru.org** ar 1 Rhagfyr 2025
- Ond mae croeso ichi gofrestru ar gyfer cyfrif EIDCymru os dyna'r ffordd fyddai'n well gennych i lenwi'ch stocrestr. Cysylltwch ag EIDCymru ar 01970 636959 os oes angen help arnoch chi.
- Mae ceidwaid sydd heb gyfrif EIDCymru yn gallu llenwi'r stocrestr ar borth ar-lein EIDCymru. Rydym wedi esbonio sut mae mynd i'r Porth yn yr e-bost neu'r llythyrau a anfonwyd yn ddiweddar at y ceidwaid hynny sydd heb gyfrif EIDCymru.



Os ydych chi'n cadw defaid neu eifr ac nad ydych wedi cael e-bost neu lythyr yn gofyn i chi gwblhau Rhestr Flynyddol, cysylltwch ag EIDCymru ar 01970 636959 ar frys.

## Gwybodaeth sydd ei hangen i lenwi'r stocrestr

Cofnodwch nifer y defaid a/neu eifr yr ydych yn berchen arnyn nhw ar 1 Rhagfyr a'r CPH lle maen nhw. Dylai hyn gynnwys tir comin ac unrhyw CPH dros dro.

Cewch ragor o gefnogaeth ac arweiniad yma: **llyw.cymru/ceidwaid-defaid-geifr-stocrestr-flynyddol-rhagfyr-2025**

Bydd y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm a Cyswllt Ffermio yn gallu'ch helpu i lenwi'ch stocrestr mewn sesiynau galw heibio mewn marchnadoedd da byw yn ystod hanner cyntaf mis Rhagfyr.

| Dyddiad | Lleoliad | Amser |
|---|---|---|
| 1 a 8 Rhagfyr 2025 | Marchnad Da Byw y Trallwng | 10.00am – 2.00pm |
| 2 Rhagfyr 2025 | Marchnad Da Byw Rhuthun | 10.00am – 2.00pm |
| 2 a 9 Rhagfyr 2025 | Marchnad Da Byw Aberhonddu | 10.00am – 2.00pm |
| 3 a 10 Rhagfyr 2025 | Marchnad Da Byw Rhaglan | 10.00am – 2.00pm |
| 4 Rhagfyr 2025 | Marchnad Da Byw Llanelwy | 10.00am – 2.00pm |
| 5 a 12/12/25 | Marchnad Da Byw Caerfyrddin | 10.00am – 2.00pm |
| 5 a 12/12/25 | Marchnad Da Byw Dolgellau | 10.00am – 2.00pm |

Bydd EIDCymru, y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm a Cyswllt Ffermio yn y Ffair Aeaf i ateb unrhyw gwestiynau.

Rydym yn eich cynghori i lenwi'ch stocrestr cyn gynted ag y medrwch ar ôl 1 Rhagfyr, ac i fanteisio ar yr help sydd ar gael. Mae oriau agor EIDCymru dros gyfnod yr ŵyl ar gael ar eu gwefan **eidcymru.org**.



# CREU COETIR

## Cyngor am Ddim ar Greu Coetir

Ydych chi'n ystyried creu coetir ar eich fferm? Os felly, a ydych chi'n ymwybodol bod 'gwasanaeth cyn ymgeisio' am ddim ar gael gan CNC?

Mae'r 'gwasanaeth cyn ymgeisio' hwn wedi'i gynllunio i gynnig gwybodaeth am ba mor addas yw eich tir ar gyfer creu coetir. I gael gafael ar y cyngor am ddim neu am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost i **GwirioCynllunCoetir@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**.



## Cynlluniau Creu Coetiroedd

Ar ôl i chi gael cyngor cyn ymgeisio gallwch wneud cais i'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir. Mae'r Cynllun yn darparu cyllid rhwng £1,000 a £5,000 i benodi Cynllunydd Coetir Cofrestredig i gynnig cyngor a datblygu cynllun creu coetir i chi. Mae'r Cynllun ar agor ar gyfer Datganiadau o Ddiddordeb drwy gydol y flwyddyn. Caiff ceisiadau llwyddiannus eu dewis bob mis. Unwaith y bydd cynllun creu coetir wedi'iddilysu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gallwch wneud cais am Grant Creu Coetir.

Yn ogystal, mae'r cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir ar gyfer plannu llai na 2 hectar. Mae sawl cyfnod ymgeisio drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r dyddiadau ar gael yn yr adran dyddiadau allweddol ac ar wefan Llywodraeth Cymru: **www.llyw.cymru/cynlluniau-gwledig-dyddiadau-ymgeisio**. Mae'r grant hwn yn cynnig cymorth i blannu coed ar dir cymwys sydd wedi'i gynnwys yn yr ardal sensitifedd isel ar y Map Cyfleoedd Coetir: **mapdata.llyw.cymru/maps/small-grants-woodland-creation/**. Nid oes angen cais ymlaen llaw na chynllun coetir wedi'i ddilysu.

Gweler ein llyfryn canllawiau am drosolwg o'n Grantiau Creu Coetiroedd: **llyw.cymru/cynlluniau-grant-creu-coetir-llyfryn**.

Bydd coed llydanddail (o leiaf 80% ohonynt yn goed llydanddail) fydd wedi'u plannu mewn lleiniau unigol o 0.1 hectar neu fwy, hynny yw a fydd yn y pridd ac o dan eich rheolaeth erbyn 15 Mai 2025 yn cyfrannu at amod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) ar gyfer 2026 bod 10% yn gynefin. Bydd coed a blannwyd o 1 Ebrill 2022 ymlaen yn cael cyfrif at y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi (Gwrychoedd) yr SFS o dan Weithred Gyffredinol 10.

# IECHYD A LLES ANIFEILIAID



## Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Gweithredu Cyffredinol ar Iechyd a Lles Anifeiliaid – Yr hyn sydd angen i chi ei wybod

Mae Gweithredu Cyffredinol ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn gyfle gwych i gydweithio â'ch milfeddyg i optimeiddio iechyd anifeiliaid ar eich fferm ac ategu eto y mentrau 'iechyd a lles' rhagorol sy'n cael eu cynnal ar ffermydd da byw Cymru. Mae'r Gweithredu Cyffredinol yn cynnwys tair elfen, wedi'u cynllunio i ategu ei gilydd:

- Gweithiwch gyda'ch milfeddyg i gymryd pedwar cam y **Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid** mewn cyfnod o 12 mis ar gyfer y rhywogaethau da byw mwyaf priodol rydych yn eu cadw ar eich fferm. Rydych chi'n penderfynu beth rydych am weithio arno mewn cydweithrediad â'ch milfeddyg. Mae gan y broses AHIC dempled safonol y mae'n rhaid ei ddefnyddio.
- **Asesiad bioddiogelwch ar gyfer anifeiliaid sy'n dod i mewn –** Cwblhewch asesiad bioddiogelwch gyda'ch milfeddyg ar gyfer anifeiliaid sy'n dod i mewn, gan ddefnyddio'r templed safonol.
- **Lles Anifeiliaid –** Cwblhau hyfforddiant ynghylch Sgorio Cyflwr Corff a Sgorio Symudedd ar gyfer y mathau o dda byw rydych yn eu cadw, gan ddefnyddio modiwlau SFS penodol ar y platfform Cyswllt Ffermio neu hyfforddiant cymeradwy arall. Dylech wneud yr hyfforddiant o leiaf unwaith bob

pum mlynedd. Bydd angen i chi gwblhau a chofnodi dyddiad sgorio cyflwr corff a symudedd buches neu ddiadell, gan nodi unrhyw gamau sydd angen eu cymryd.

Mae templedi wedi'u datblygu gyda'r diwydiant i arwain ffermwyr a milfeddygon drwy ffordd newydd ac arloesol o weithio, tra bydd milfeddygon yng Nghymru yn cael hyfforddiant achrededig i wneud y mwyaf o werth yr AHIC.

Mae'r gwaith rydych chi'n ei wneud ar gyfer y gweithredu hwn yn gwbl ar wahân i unrhyw gynlluniau iechyd rydych chi'n eu cymryd fel rhan o gynlluniau sicrwydd fferm y gallech gymryd rhan ynddynt. Mae cynlluniau iechyd sicrwydd fferm ac yn arbennig y broses AHIC ar wahân ond hefyd, o bosibl yn synergaidd. Mae gan bob un amcanion a dulliau gwahanol, er y gellid cyflawni rhai agweddau ar yr un pryd. Mae adborth gan ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot AHIC diweddar wedi bod yn hynod gadarnhaol.

Dewch i glywed mwy gan ffermwyr a milfeddygon sy'n rhan o'r peilot yn ein digwyddiadau AHIC y gaeaf hwn. Bydd manylion ar gael cyn bo hir ar dudalen we 'Beth sy'n Digwydd' Cyswllt Ffermio.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, ewch i: **llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-2026-disgrifiad-or-cynllun-html** neu'r adran **llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-cwestiynau-cyffredin**.



## Bwrdd y Rhaglen Dileu TB

Bydd Bwrdd y Rhaglen Dileu TB yn flwydd oed ym mis Rhagfyr. Yn ystod ei flwyddyn gyntaf, mae wedi cynghori Llywodraeth Cymru ar newidiadau i'r Polisi Lladd Ar y Fferm ac ar reoli gwartheg sy'n cael canlyniad negatif i brawf ar ôl adwaith amhendant. Roedd y ddau argymhelliad o ganlyniad i gyngor gan y Grŵp Cynghori Technegol ac yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Gellir dod o hyd i'r dyddiad cychwyn a manylion pellach am y polisi newydd ar adweithyddion nad ydynt yn cydymffurfio sydd â chanlyniad negyddol yn **llyw.cymru/cyfyngiadau-symud-ar-wartheg-yng-nghymru-i-reoli-tb-yn-well**.

Disgwylir adroddiad TAG ar TB, Gwartheg a Bywyd Gwyllt ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr a bydd yn llywio'r cyngor a roddir i Lywodraeth Cymru. Mae gwaith eisoes ar y gweill i adolygu'r drefn brofi a symud bresennol a datblygiadau ac arloesedd mewn profion. Bydd casgliadau'r TAG, yn dilyn eu hadolygiad, yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn ystod 2026.

Mae'r Bwrdd a'r TAG yn cydnabod cymhlethdod y clefyd a'r heriau hirdymor wrth geisio'i ddileu. Maen nhw wrthi'n cwblhau Datganiad Sefyllfa terfynol a fydd yn disgrifio'u strategaeth i ddileu bygythiad y clefyd a'i effaith ar wartheg, pobl a bywyd gwyllt.

Bydd y Bwrdd yn cynnal fforwm agored ar ddydd Llun y Ffair Aeaf yn Llanelwedd, i rannu gwybodaeth am y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Cynhelir y cyfarfod yng Nghanolfan CFfI Cymru am 11am. Mae manylion y digwyddiad, gan gynnwys sut i gadw lle, wrthi'n cael eu paratoi ar hyn o bryd ac rydym yn disgwyl ymlaen at y cyfle i gwrdd â rhanddeiliaid ac eraill sydd am weld dileu TB Gwartheg.



## TB Gwartheg: Cyfyngiadau am oes ar Adweithyddion Amhendant (IR) safonol sydd wedi'u clirio

O 1 Ionawr 2026,bydd gwartheg sydd wedi cael adwaith amhendant (IR) i brawf TB ar ôl dehongliad safonol ond sydd wedyn yn cael canlyniad negatif (adweithyddion amhendant safonol a gliriwyd fel y'u gelwir) yn cael eu cyfyngu am weddill eu hoes. Bydd hyn

yn effeithio ar bob IR trwy ddehongliad safonol sy'n cael canlyniad negatif ar ôl dehongliad safonol i'r ail brawf. Bydd rhaid cadw'r IRs hynny ar y daliad lle cawsant eu darganfod. Yr unig symudiadau a ganiateir ar gyfer anifeiliaid o'r fath yw i ladd-dy neu Uned Besgi Gymeradwy (AFU). Gallwch symud y gwartheg yn syth, trwy ganolfan gasglu gymeradwy, neu drwy arwerthiant TB pwrpasol (marchnad oren).

## Diffiniad o IR safonol a gliriwyd

Y prif brawf sgrinio am TB mewn gwartheg ym Mhrydain Fawr yw'r prawf croen twbercwlin gyddfol cymharol (SICCT). Yr enw cyffredin ar hwn yw'r prawf croen TB. 'Adweithydd amhendant ar ôl dehongliad safonol' yw anifail sy'n dangos mwy o adwaith i'r twbercwlin gwartheg nag i'r twbercwlin adar, ond nid yw'r adwaith yn ddigon cryf ichi allu dweud fod yr anifail yn adweithydd. Rhaid ynysu IRs a rhoi ail brawf iddynt ar ôl 60 diwrnod. Mae anifail yn cael ei ystyried yn adweithydd os bydd wedi cael adwaith amhendant i ddau brawf croen TB, un ar ôl y llall.

Mae 'IR safonol a gliriwyd' yn anifail a gafodd adwaith amhendant ar ôl dehongliad safonol o brawf croen TB, ond sydd wedyn yn cael canlyniad clir ar ôl dehongliad safonol mewn ail brawf.

Mae canllawiau pellach ar gael yn: **llyw.cymru/tb-gwartheg-cyfyngiadau-am-oes-ar-adweithyddion-amhendant-safonol-sydd-wediu-clirio**.

Y prif brawf sgrinio am TB mewn gwartheg ym Mhrydain Fawr yw'r prawf croen twbercwlin gyddfol cymharol (SICCT).



## Dolur Rhydd Feirysol Buchol – BVD Beth sydd angen i chi ei wybod y gaeaf hwn

Mae Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru), sydd wedi bod mewn grym ers 1 Gorffennaf 2024, yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n cadw gwartheg sgrinio eu buches yn flynyddol am BVD. Bydd canlyniadau'r sgrinio hwn yn pennu statws y fuches.

### Sut ydw i'n sgrinio am BVD?

- Mae llawer o geidwaid yn ei chael hi'n haws profi yn ystod eu hymweliad TB blynyddol.
- Cymerir sampl gwaed gan bump o loi heb eu brechu rhwng 9–18 mis oed, fesul grŵp rheoli.
- Os nad yw hyn yn bosibl, siaradwch â'ch milfeddyg am arweiniad pellach.

Daw cam nesaf y ddeddfwriaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2026. Mae'n golygu y bydd angen profion cyn symud ar wartheg o fuchesi nad ydynt wedi'u sgrinio, neu'r rhai sy'n dod o fuchesi statws BVD Nad yw'n Negatif, cyn y gallant symud oddi ar y fferm.

Bydd angen i fuches Nad yw'n Negatif gael ei phrofi i adnabod unrhyw anifeiliaid sydd wedi'u heintio'nbarhaus (PI). Rhaid i anifeiliaid PI gael eu hynysu ar y daliad a'u cadw i ffwrdd o weddill y fuches am weddill eu hoes.

Os nad ydych wedi sgrinio'ch buches ers 1 Gorffennaf 2024; gweithredwch nawr trwy gysylltu â'ch milfeddyg i drefnu sgrinio ar gyfer BVD.

## Cynyddu ymwybyddiaeth o ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn da byw

Ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) yw lle mae micro-organebau, fel bacteria, yn magu ffordd o oroesi'r cyffuriau, fel gwrthfiotigau, sydd wedi'u cynllunio i'w lladd. Gall defnydd anghyfrifol neu orddefnydd o wrthficrobyddion arwain at ymwrthedd iddyn nhw. Bob Tachwedd 18–24, mae Wythnos Ymwybyddiaeth o Ymwrthedd Gwrthficrobaidd y Byd yn ceisio dysgu pobl am y broblem iechyd fyd-eang hon.

Dan arweiniad rhaglen 'Arwain' DGC a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae Cymru yn adnabyddus trwy'r byd am leihau'r defnydd o wrthfiotigau mewn da byw. Ymwelodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies â fferm yn Ne Cymru sydd wedi lleihau ei defnydd o wrthfiotigau ar gyfer niwmonia lloi 92% drwy awyru siediau'n well a defnyddio technolegau newydd.




Rydym yn annog ffermwyr i weithio gyda'u milfeddygon i ddefnyddio gwrthfiotigau yn gyfrifol. Drwy wneud, rydych chi'n helpu Cymru i reoli AMR a chadw defnyddioldeb y meddyginiaethau hanfodol bwysig hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud i leihau ymwrthedd gwrthficrobaidd yng Nghymru, gweler: **https://rhaglenni.mentera.cymru/arwaindgc/en/home/.**

## Gofalu am anifeiliaid fferm a cheffylau yn ystod tywydd eithafol

Gall tywydd eithafol beri risg difrifol i dda byw. Os ydych yn cadw da byw dylech gadw golwg agos arnynt. Mae'n bwysig fod ganddynt gysgod, bwyd a dŵr.

Os ydych chi'n cadw anifeiliaid allan mewn ardal lle mae perygl o lifogydd, dylai fod gennych gynllun i'w diogelu nhw.

**www.llyw.cymru/gofalu-am-anifeiliaid-fferm-cheffylau-yn-ystod-tywydd-eithafol**

# DEWCH I'N GWELD NI YN Y FFAIR AIAF YN MAES SIOE FRENHINOL CYMRU




## Dewch in gweld ni yn Ffair Aeaf 2025 Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

Bydd staff Llywodraeth Cymru, gan gynnwys aelodau o Wasanaeth Cyswllt Ffermio, yn bresennol yn Paviliwn Llywodraeth Cymru (ar draws y fford o adeilad NFU) ac yn Neuadd Arddangosfa De Morgannwg yn ystod Ffair Gaeaf 2025, a gynhelir o ddydd Llun 24 Tachwedd i ddydd Mawrth 25 Tachwedd.

## Sesiwn galw heibio Cynllun ffermio Cynaliadwy – Pafiliwn Llywodraeth Cymru

Bydd ymwelwyr yn gallu dod i mewn a siarad â chydweithwyr o Daliadau Wledig Cymru, Coetiroedd, Cyswllt Ffermio, Iechyd a Lles Anifeiliaid, Cyswllt Ffermio, a Chorfforaeth Naturiol Cymru i drafod popeth sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Bydd RPW yn dangos arddangosiadau o elfennau o' r SFS-SAF. gan gynnwys tudalennau data maes a dangosfwrdd Cyffredinol SFS I ymwelwyr.

## Stondin Llywodraeth Cymru – Neuadd Arddangosfa De Morgannwg

Bydd staff ar gael i gynnig y wybodaeth ddiweddaraf ar amrywiaeth o feysydd materion gwledig cyffredinol, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, cynlluniau cymorth amaethyddol, cynlluniau creu Coetiroedd, Rheoliadau Llygredd Amaethyddol a EID Cymru.

**Dewch draw i ddweud helo.**

# PARATOI AR GYFER LLIFOGYDD A THYWYDD EITHAFOL

Mae llifogydd a digwyddiadau tywydd eithafol yn dod yn fwy cyffredin yng Nghymru, yn enwedig yn ystod y gaeaf.

Dyma sut i gadw'n ddiogel ac yn barod:

**Arhoswch yn Wybodus**

- Cofrestrwch ar gyfer rhybuddion llifogydd am ddim gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).
- Gwiriwch rybuddion tywydd (**weather.metoffice.gov.uk/warnings-and-advice**) y Swyddfa Dywydd adiweddariadau gan eich cyngor lleol.

**Dyma sut i gadw'n ddiogel ac yn barod:**

- Defnyddiwch **Fap Perygl Llifogydd (https://flood-risk-maps.naturalresources.wales/?locale=cy)** CNC i weld a yw eich eiddo mewn ardal risg.
- Gwiriwch os ydych yn gymwys i gael cymorth drwy'r **Flood Re Tool www.floodre.co.uk/find-an-insurer/#flood_re_tool**
- Ystyriwch fesurau "Ailgodi'n Well" **www.floodre.co.uk/buildbackbetter/** fel:
  - rhwystrau llifogydd ar ddrysau
  - gorchuddion brics aer
  - falfiau un-cyfeiriad
  - seliau dal dŵr ar waliau a lloriau.

**Bod yn Barod ar gyfer y Gaeaf**

- Glanhewch eich gwteri, draeniau a phibellau glaw yn rheolaidd.
- Rhowch wybod i'ch cyngor am unrhyw ddraeniau stryd sydd wedi blocio.
- Sicrhewch fod eich gardd a'r lonydd i'r tŷ yn draenio'n dda (e.e. arwynebau athraidd).

**Lles Anifeiliaid yn ystod Llifogydd a Thywydd Eithafol**

- Mae angen cynllun wrth gefn ar gyfer anifeiliaid awyr agored yn ystod tywydd eithafol.
- Dylai ffermwyr mewn ardaloedd risg llifogydd gynllunio sut a ble i symud anifeiliaid yn ddiogel.
- Ar ôl llifogydd, monitro anifeiliaid yn agos – yn enwedig rhai ifanc – am arwyddion o salwch o ganlyniad i borthiant neu ddŵr wedi'i halogi.





# MAE EICH FFERM YN DIBYNNU ARNOCH CHI: BYDDWCH YN DDIOGEL

## Gall damwain gyda ATV newid eich bywyd am byth

**Gall ATV fod yn hynod beryglus.** Gall damweiniau yn ymwneud â'r cerbydau hyn arwain at ganlyniadau difrifol, gan arwain yn aml at anafiadau sy'n newid bywyd neu hyd yn oed farwolaethau.

Er mwyn lleihau'r risg o ddamwweiniau gyda ATV, mae'n hanfodol eich bod yn:

- **Gwisgo offer diogelwch priodol:** Gwarchodol helpu i leihau pa mor ddifrifol yw anafiadau.
- **Cael hyfforddiant priodol:** Mae deall sut i weithredu ATV yn ddiogel yn hollbwysig.
- **Dilyn canllawiau'r gwneuthurwr:** Dylech gadw at gyfyngiadau pwysau ac oedran yr ATV.
- **Teithio yn gyfrifol:** Dylech osgoi tirwedd beryglus, cyflymder gormodol a ni ddylech fynd ar y beic o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.

PARTNERIAETH DIOGELWCH AR FFERMYDD CYMRU
WALES FARM SAFETY PARTNERSHIP

Cydweithio i wneud ffermio'n ddiogel

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

# Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm

## Gwasanaeth cymorth wedi'i ariannu'n llawn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydym yn rhoi arweiniad i gwsmeriaid mewn perthynas â holl feysydd polisi ynghyd a cynlluniau ffarmwriaeth a gwledig a weinyddir gan Lywodraeth Cymru.





## Rydydm yma i helpu, cysylltwch a ni.

### CYMRU GYFAN

**Rita Jones** Cymraeg
07971 048619
rita.jones@gov.wales

### DE-DDWYRAIN CYRMU

**Jane Walters**
07721 894875
jane.walters@gov.wales

**Caitlin Harley** Cymraeg
07890 663351
Caitlin.harley@gov.wales

### DE-ORLLEWIN

**Catrin Jones** Cymraeg
07968 159637
catrin.jones3@gov.wales

**Caitlin Harley** Cymraeg
07890 663351
Caitlin.harley@gov.wales

### GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

**Armando Morgan** Cymraeg
07774 950639
armando.morgan@gov.wales

### GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU

**Janet Phillips** Cymraeg
07774 950654
janet.phillips@gov.wales

### CANOLBARTH CYMRU

**Steve Meredith**
07721 894873
stephen.meredith@gov.wales


**Eve Bridgewater**
07721 894869
eve.bridgewater@gov.wales

**Jane Walters**
07721 894875
jane.walters@gov.wales

FLS
Tîm Cysylltwyr Fferm
Farm Liaison Service

# CONTINUOUS PROFESSIONAL DEVELOPMENT

## HOW FARMING CONNECT CAN SUPPORT THE COMPLETION OF UA4 OF THE SUSTAINABLE FARMING SCHEME



There are **6 Farming Connect accredited e-learning suites, consisting of up to 9 modules per suite**, specifically designed to complement each other and enhance your learning experience and knowledge of sustainable land management.


Each module takes approximately **1 hour** to complete and there are a total of **44 modules** to choose from.






Upon completion of a suite, you will gain a higher level of recognition through a Lantra Awards certificate, which will be automatically saved in your **Storfa Sgiliau** account to evidence the CPD you have achieved.

For farm businesses joining the SFS in 2026, completing these e-learning modules from summer 2025 **will be counted** towards the 2026 Scheme Year *(but only for that scheme year)*.



The e-learning modules and Storfa Sgiliau are **fully funded** and can be found on the Farming Connect website.

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

SGILIAU A HYFFORDDIANT
SKILLS AND TRAINING

# Gwybodaeth a chymorth gyda thechnoleg am ddim

**Ydych chi eisiau cymorth i:**

- ✓ greu a rheoli e-byst
- ✓ defnyddio unrhyw ddyfais e.e gliniadur, ipad / fersiwn android, ffôn ac ati
- ✓ cael mynediad at systemau Llywodraeth Cymru (RPW / One Login)
- ✓ ymuno â gweminar
- ✓ gwrando ar farchnad / ocsiwn byw
- ✓ creu a defnyddio taenlenni
- ✓ creu cyfrif Facebook, Instagram ayb
- ✓ cymorth gyda Storfa Sgiliau
- ✓ DataFferm+

*Mae cymorth ar gael rhwng 1 a 3 awr*

## Cysylltwch â ni ar

# 03456 000 813




Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

*Rydym yn croesawu galwadau'n Gymraeg*


FARMING connect
cyswllt FFERMIO

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

**FARMING** connect
cyswllt **FFERMIO**

DATAFFERM+

# Datgloi potensial eich Fferm gyda phŵer meincnodi DATAFFERM+









## BETH YW MEINCNODI?


Mae meincnodi yn offeryn rheoli pwerus sy'n caniatau i chi fesur perfformiad eich fferm a chymharu canlyniadau yn erbyn perfformiad blaenorol, ffermydd tebyg a chyfartaledd y diwydiant.

## Manteision Meincnodi

- Nodi cryfderau a gwendidau
- Hybu proffidioldeb
- Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata
- Gwella effeithlonrwydd
- Aros yn gystadleuol
- Gosod nodau realistig

## Mae DATAFFERM+ yn cynnig

- ✓ Dull dangosyddion perfformiad allweddol (DPA)
- ✓ Dangosyddion ffisegol, ariannol ac amgylcheddol
- ✓ Dangosyddion perfformiad allweddol sector-benodol a'r fferm gyfan
- ✓ Dadansoddiad ar unwaith gyda chymorth wedi'i deilwra
- ✓ Hawdd ei lywio
- ✓ Teitl y DPA yn unig a fydd yn cael ei rannu'n awtomatig gydag RPW (dim data perfformiad)




**Bydd angen i chi gofrestru drwy GOV.UK Onelogin a Cyswllt Ffermio**

**Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol am ragor o wybodaeth.**
*Rydym yn croesawu galwadau'n Gymraeg*

**03456 000 813**

**llyw.cymru/cyswlltffermio**

**Sganiwch y cod QR i ddarganfod sut mae meincnodi wedi bod o fudd i ffermwyr Cymru.**

# BLE ALLA I GAEL HELP?
## CYSYLLTWCH Â NI



**FARMWELL CYMRU**
www.farmwell.cymru

**CYSWLLT FFERMIO**
03456 000 813

**SEFYDLIAD DPJ**
07860 048799 (testun yn unig)

**CRONFA ADDINGTON**
01926 620135

**TIR DEWI**
0800 1214722
mail@tirdewi.co.uk

**TÎM CYSYLLTWYR FFERM**
0300 0255449
farmliaisonservice@llyw.cymru

**SEFYDLIAD FUDDIANOL AMAETHYDDOL FRENHINOL (RABI)**
0800 188 4444
help@rabi.org.uk

**Y RHWYDWAITH CYMUNEDAU FFERM**
03000 111 999
help@fcn.org.uk

**CANOLFAN GYSWLLT CWSMERIAID TALIADAU GWLEDIG CYMRU**
0300 062 5004

**MIND CYMRU**
0300 123 3393
info@mind.org.uk

**SAMARITANS**
116 123
jo@samaritans.org